# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)**

| **Aelodau'n bresennol:** | **Dydd Mawrth, 1 Awst 2023** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod J.Jones** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod T.Bowen** |
| **Cynghorydd**: | S.Paddison, D.Keogh, C.James, C.Jordan, S.Thomas, N.Goldup-John a/ac P.Rogers |
| **Aelod CDU/CDLl:** | Aelod W.F.Griffiths |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod R.Phillips (Trebanos;) a/ac P.A.Rees (Neath South;) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Davies, G.White, R.MacGregor, J.Weeks, C.Plowman a/ac C.Hall |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Davies, G.White, R.MacGregor, J.Weeks, L.Thomas, M.Griffiths, T.Davies a/ac C.Plowman |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. C Jordan | Parthed Eitem 6 ar yr Agenda, Cais Rhif T2023/02, gan fod y preswylydd yn ffrind i'r teulu. Penderfynodd y Cyng. mai cysylltiad personol oedd hwn, a chymerodd ran yn y drafodaeth a'r bleidlais wedi hynny. |

| | |
|---|---|
| Y Cyng. T Bowen. | Parthed Eitem 6 ar yr Agenda, Cais Rhif T2023/02, gan fod y preswylydd yn ffrind i'r teulu. Penderfynodd y Cyng. mai budd niweidiol oedd hwn, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais. |

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

4. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE O'R CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ymweliad(au) safle.

5. **CAIS RHIF P2023/0240 - 9 HEOL UWCHDIR, PONTARDAWE**

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio am y cais hwn (newid defnydd o annedd unigol (dosbarth defnydd C3) i gartref gofal preswyl (dosbarth defnydd C4) am hyd at 4 plentyn a'u gofalwyr) yng Nghraig y Rhedyn, 9 Heol Uwchdir, Pontardawe SA8 4AH fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelod Ward Lleol wedi gofyn i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, ac roedd yn bresennol i roi ei sylwadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2023/0240, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **CAIS RHIF T2023/02 - 111 HEOL CIMLA, CASTELL-NEDD**

*Ailddatganodd y Cyng. T Bowen ei fudd a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig*

Rhoddodd y swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (cadarnhau T1 Pinwydden Corsica (Pinus Nigra) a T2 Pinwydden yr Alban(Pinus Sylvestris) yn 111 Heol Cimla, Castell-nedd SA11 3UE, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelod Ward Lleol wedi gofyn i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, ac roedd yn bresennol i roi ei sylwadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2023/02, yn unol ag argymhellion swyddogion.

Yn ogystal, byddai'r cyngor yn ysgrifennu at berchnogion y coed (Tai Tarian) ac yn eu gwahodd i wneud cais am waith adfer i liniaru'r elfen niwsans o ganlyniad i ganghennau bargodol.

7. **APELIADAU A BENDERFYNWYD - 19.04.23 I 24.07.23**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau a Benderfynwyd o 19 Ebrill i 24 Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNWYD:** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

8. **APELIADAU A DDERBYNIWYD - 19.04.23 I 24.07.23**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau a Dderbyniwyd o 19 Ebrill 2023 i 24 Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

9. **PENDERFYNIADAU A DDIRPRWYWYD - 19.04.23 I 24.07.23**

Nododd yr aelodau'r rhestr o Benderfyniadau a Ddirprwywyd o 19 Ebrill 2023 i 24 Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

10. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag